

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Ragfyr 2018.

- 1 Presennol - Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry - Bryncir, John Jones Anwen Humphreys Clifford Williams - Garndolbenmaen, Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa, Richard Williams - Prenteg, Huw Pritchard Delyth Evans Meinir Raine - Pentrefelin, Amanda N Owen - Golan.
- 2 Ymddiheuriadau - Maldwyn Owen, Eifion Williams, Dafydd Thomas, Gwilym Evans, Megan Lloyd Williams Cynghorydd Stephen Churchman Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

Croesawyd Meinir Raine i'w chyfarfod cyntaf. Dymunwyd yn dda i Anwen Humphreys yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar. Penderfynwyd gyrru cofion at Eifion Williams a gafodd llawdriniaeth yn ystod yr wythnos.

- 3 Ddim yn bresennol - neb.
- 4 Datgan buddiant - neb.
- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion- 1/11/18.
Huw Pritchard yn datgan eu cywirdeb a Richard Williams yn eilio.
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Golau Stryd Bron Awen Prenteg- Clerc i gysylltu gyda'r Adran Golau Stryd i holi os ydynt wedi darganfod pwy yw perchennog y tir.

Cross Foxes - gwybodaeth ynglŷn â'r gwerth trethadwy wedi ei roi i Gymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen.

Gorsaf Bws Bryncir - wedi ei lanhau.

Golan - derbyniwyd ateb gan yr Adran Briffyrdd yn nodi fod lôn Golan wedi ei gynnwys ar y rhestr o ffyrdd ardal Dwyfor effeithiwyd gan y tywydd poeth. Nid oes sôn nac addewid hyd yma fod arian ychwanegol ar gael i adfer effeithiau'r tywydd poeth. Mynegwyd pryder, os bydd tywydd garw y Gaeaf yma, yna bydd damweiniau yn digwydd. Clerc i ofyn i'r Cynghorydd Stephen Churchman i wneud ymholiadau pellach.

7 Mynwentydd

Eglwys St Michael's Cwm Pennant - bwlch yn y wâl wedi ei hatgyweirio.

Mynwent Prenteg - clo ar y giât wedi ei ail osod. Angen torri brigau.

Mynwent Bethel- derbyniwyd sylwadau gan un o weinidogion yr ardal ynglŷn a chyflwr taclus y fynwent.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr o Ysgol Garndolbenmaen am Fryncir - gwaith ar y llwybr wedi ei gwblhau.

Llwybr Ysgol Golan - adroddwyd fod dŵr wedi tanseilio sylfeini'r wal sy'n amgylchu'r Ganolfan Gymdeithasol.

9 Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin

Mae brigyn wedi hanner syrthio ar lôn Tabor, hanner ffordd i fyny at Glan Byl. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Garndolbenmaen

Er gwybodaeth - mae rhan fwyaf o aelodau'r Neuadd wedi ymddiswyddo. Mae'r gorïad gan yr Ymddiriedolwyr. Mae cyfreithiwr y Neuadd yn bwriadu codi pwyllgor newydd ym mis Ionawr.

Penmorfa

Mae'r drych newydd dros y ffordd i fynedfa Tyn Llan yn troi yn y gwynt. Clerc i gysylltu gyda'r Swyddfa Asiantaeth Cefnffyrdd.

Bryncir

Glan Dwyfach - adroddwyd fod ceir sy'n dod o gyfeiriad Caernarfon yn troi i wyneb y traffig sy'n dod o gyfeiriad Criccieth. Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

10 Diffibriliwr Pentrefelin

_Yn dilyn trafodaeth mis Tachwedd, adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda 'Our Watch' i egluro fod Cynllun Gwarchod Cymdogaeth ardal Pentrefelin wedi dirwyn i ben. Yn ogystal, roedd angen holi oedd yn bosib i'r Cyngor Cymuned dderbyn yr arian oedd yn weddill yn y cyfrif banc ar ran Gronfa'r Diffibriliwr ym Mhentrefelin.

Cafwyd ateb yn gofyn i'r Cyngor Cymuned sicrhau fod ganddynt gopi o'r Cyfansoddiad a'r Cofnodion oedd yn cadarnhau fod y Cynllun wedi dirwyn i ben. Derbyniwyd y dogfennau gan Ysgrifennydd y Cynllun. Hysbyswyd 'Our Watch' o hyn, ond nid ydynt wedi cadarnhau y gall y Cyngor Cymuned dderbyn yr arian.

Yn y cyfamser, holwyd Unllais Cymru oedd y rheoliadau ariannol yn caniatáu i'r Cyngor Cymuned weithredu ar ran Cronfa'r Diffibriliwr. Cafwyd cadarnhad ei fod yn dderbyniol i wneud hyn, ar yr amod, fod yr holl arian, yn y pen draw, yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Diffibriliwr.

11 Cynllun Gweithredu archwiliad allanol

Derbyniwyd ateb gan yr Archwilydd Allanol yn cadarnhau fod y gyllideb a baratowyd gan y Cyngor Cymuned ar gyfer 2018/19 wedi cymryd i ystyriaeth yr arian wrth gefn. Cytunwyd ar y camau gweithredu i'w cymryd.

12 Gwefan

Mae angen sicrhau fod y wybodaeth ar y wefan yn gyfredol. Cytunwyd, y dylid, o fis Ionawr, gynnwys gwefan ar yr Agenda trwy ei gyfuno gyda Gohebiaeth i'r Wasg.

13 Polisiau'r Cyngor

Penderfynwyd, os yn gyfleus, y byddai'r Cadeirydd, Cyngorydd Megan Lloyd Williams a'r Clerc yn cyfarfod am 6.15 ar y 3ydd o Ionawr 2019, i drafod y newidiadau drafft i'r polisiau.

14 Gohebiaeth

a Llythyrau gan Cyngor Gwynedd - Holiadur Toiledau Cyhoeddus

Praesept 2091/20

- b Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gwynedd
 - c Llywodraeth Cymru - swm o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - terfyn ar gyfer 2019-2020 (£8.12)
 - ch E-bost Mabon ap Gwynfor ar ran Llyr Gruffydd AC a Helen Mary Jones AC
 - d Comisiwn Pobl Hŷn Cymru - Tegwch i Ofalwyr
 - dd Newyddlen Rhwydwaith Busnes Gwynedd Gaeaf 2018
 - e Adroddiad drafft IRPW
 - f Ychwanegwyd manylion Cronfa Peilot Gwynedd
- 15 Cynllunio - Rhestrau 5/11, 12/11, 16/11, 27/11/18. Ychwanegwyd 30/11/18.

Ceisiadau Cynllunio

C18/0989/36/CT Torri coed o fewn ardal gadwraeth. Plas Dolbenmaen, Garndolbenmaen. LL51 9RQ Dyddiad cau sylwadau 26/11/18. Dim gwrthwynebiad, ond gofyn iddynt glirio'r coed sydd wedi cael eu torri'n barod.

C18/1007/35/TC Cais am dystysgrif cyfreithloni ar gyfer defnydd tir fel maes gwerysyla. Parc Carafanau Eisteddfa, Pentrefelin, Criccieth. LL52 OPT Dyddiad cau sylwadau 29/11/18. Cadarnhau y defnydd.

C18/1022/36/LL Codi sied amaethyddol ar gyfer cadw defaid yn y gaeaf ac yn ystod cyfnod wyna. Tir ger Clawdd Rhos, Golan, LL51 9YY Gwrthwynebu ar sail lleoliad, rhy agos i'r tŷ cyfagos a maint yr adeilad.

16 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch 2018
Neuadd Garndolbenmaen
Trafod ym mis Chwefror

Monitro'r gyllideb: O fewn yr arian a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc = £237.99
Ffôn = £ 10.00

Cyfrifiadur = £ 15.00
HMRC = £ 59.40
Gwasg y Bwthyn = £ 7.92 + ychwanegwyd £5.88
Yr Wylan = £ 16.00
Waterworks = £ 40.00
Unllais Cymru = £ 40.00
Swyddfa Archwilio Cymru = £403.05*
*(gohirio'r taliad nes cael eglurhad pam fod cynnydd o £148.80)

Derbyniadau

Madog Memorials = £ 30.00

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,784.90
Cyfredol - £ 6,684.41

Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg

17

- Croesawu Cynghorydd Newydd
- Ceisiadau Cynllunio
- Cronfa Peilot Gwynedd
- Cyfarchion yr Ŵyl